

**BONT BASH**

Yn anffodus, ni ddaeth llawer o bobl i'r Bash eleni a bu'r digwyddiad ar ei golled. Ond fe gyfrannodd nifer o bobl rodion, gan achub y dydd. Llawer o ddiolch i'r rhai a ddaeth i'n cefnogi ac i'r rhai a gyfrannodd.

Fel y dywedwyd yn aml iawn, mae ein hincwm yn ddibynol ar ein noddwyr naill ai drwy hysbysebu neu'n uniongyrchol o'r Bash. Mae'r diffyg arian o'r Bash a'r lleihad yn y nifer o fusnesau yn y pentref yn golygu y bydd diffyg arianol am y flwyddyn sy'n dod. Byddwn yn dal i gyhoeddi nes bydd yr arian yn dod i ben.

Sir Ddinbych - Cynllun Datblygu Lleol

Bydd y cynllun Datblygiad Lleol (CDLI) yn cael ei osod yn lle'r Cynllun Datblygu Unedol. Bydd y CDLI yn pennu ardaloedd arfaethedig ar gyfer tai, cyflogaeth, a hamdden. Nodwyd Carrog o fewn y Sir yn Gymuned Wledig ac o'r herwydd bu ganddo ffin ddatblygu.

Mae'r Cyngor Sir yn nodi materion allweddol wrth gadw cymunedau gwledig fel ein cymuned ni.

Dyma nhw:

- Yr angen am gadw pentrefi'n gymunedau sy'n ffyniannus a bywiog.
- Swyddogaeth bwysig yr ysgolion, siopau, swyddfeydd post, eglwysi a chapeli'n ganolfannau cymunedol.
- Yr angen am roi'r cyfle i bobl allu prynu cartref a chael swydd yn y cymunedau hyn.

Ychydig iawn o ddatblygu fu yng Ngharrog a Lliariart y Parc yn ystod yr 30 mlynedd diwethaf ar ôl adeiladu Maes y Llan. Tri o dai newydd yn unig a godwyd yn ystod y cyfnod hwn. Daeth Carrog yn lle poblogaidd dros ben i fyw ynddo ac o'r herwydd mae prisiau'r tai ymhlith y prisiau uchaf yn yr ardal. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl symud o'u cartref cyntaf i dai mwy, gan olygu nad oes tai ar gael i'r prynwyr cyntaf a fyddai'n cael trafferthion talu'r prisiau beth bynnag.

Mae'r Cyngorau Cymuned a'r Cyngor Sir wedi nodi nifer o ardaloedd yn y pentref ar gyfer datblygu tai eisoes ac os hoffai unrhyw un weld y cynllun a gynigir neu gynnig unrhyw dir arall ar gyfer y cynllun, dylent gysylltu â Chyfarwyddiaeth Amgylchedd y Sir (Cynllunio), Trem Clwyd Rhuthun.

Pen-blwydd hapus i Mr Idwal Pritchard,

Maes Y Llan, ar ddod yn 90 oed ar 8fed Tachwedd. Bydd nifer o drigolion Carrog sydd yn eu tri a phedwar degau'n cofio Mr Pritchard yn Brifathro yn Ysgol Carrog. Chwaraeodd ran allweddol o ran cael y Neuadd Bentref gyntaf a bu'n drysorydd yn ddiweddarach.

Diolch am y profiad o dynnu llun ar brynhawn Mawrth a'r sesiwn byrstio balwn adeg Nadolig! Hyderwn y cewch ddiwrnod hapus a nifer fawr eto yn y dyfodol. Oddi wrth drigolion Carrog sy'n 30 a 40.



Ar ol treulio awr go lew yn rhedeg rhyw ddarpar Cassanova o'r defaid, meddyliais fod llawer iawn o amser yn cael ei dreulio'n rhedeg ar ol anifeiliaid sy wedi dianc.

Yn gynharach eleni dyma fi'n deffro a darganfod bod fy ngwartheg wedi penderfynu bod angen mwy o fwyd arny'n nhw, a mynd i bori yn un o'r caeau gwair. Doedd hynny ynddo'i hun ddim yn drafferth fawr gan mai dim ond eu troi allan a chau'r giât oedd angen. Ond wrth gerdded at y giât doedd dim giât yn y golwg. Tua'r adeg honno daeth y diffyg cyntaf ar fy synnwyr digrifwch y diwrnod hwnnw. Wrth imi fod wrthi'n rhegi a rhwygo a mellithio'r dihiryn oedd wedi ymdrechu ganol nos i gludo'r giât ar ei gefn, dyma fi'n sylwi ar rywbeth rhyfedd drwy gil fy llygad. Wrth imi droi i edrych, daeth yr ail ddiffyg ar fy syniad digrifwch y diwrnod hwnnw. Roedd Enid (buwch enwog am ei mileindra) yn crwydro ar draws y cae gan wisgo'r giât am ei gwddf. Dwn i ddim a fu unrhyw un yn trio erioed, ond nid hawdd o beth yw tynnu giât oddi ar wddw buwch. Doedd Enid ddim am gydweithio o gwbl ac roedd hi'n hoff dros ben o'i bling newydd. Ar ol bod wrthi am bron fore cyfan yn ceisio tynnu'r giât dros ei phen dyma fi'n dioddef y trydydd diffyg digrifwch y diwrnod hwnnw. Dw i'n credu bod Enid wedi deall fy mod wedi cyrraedd pen fy nhennyn wrth imi dynnu at y giât, trodd ei phen a daeth y giât yn rhydd. Mae hynny'n profi fod nerth ac anwybodaeth yn gweithio o dro i dro.

Gyda'r gwartheg wedi'u cloi allan yn ddiogel fe adferodd y cae cyn pen dim ar ol yr annisgwyl ymwelwyr dros nos a chyn hir roeddwn yn lladd gwair.

Am y rhan fwyaf o'r cynhaeaf roedd fy mhen ôl yn dynn ar sêl y tractor (ffaith bydd llawer yn ei bwysleisio'n aml). Wrth imi ladd gwair neu feilio roeddwn yn poeni sut roeddwn yn mynd i gario'r bels. Roedd y bechgyn oedd wedi rhoi help imi yn y gorffennol wedi tyfu erbyn hyn a'r merched a'r ddiod yn apelio'n fwy na chwysu mewn cae llychlyd am bunt neu ddwy, tamaid o fwyd a min fy nhafod.

Ond doedd dim angen pryderu. Yn ffodus, daeth yr hen rai i'r bwllch ac achub y dydd. Dyma griw o ddynion oedd a'u dyddiau mercheta (os nad diota) wedi hen ddod i ben. Roedd yr ychydig ddyddiau hyn yn rhai drud imi gan eu bod yn gallu yfed eu pwysau o lager. Dw i'n dal i fynd â'r poteli gwag i'r banc ailgylchu ac mae bil y Grouse yn golygu bydd rhaid gwneud peth esbonio i'r cyfrifydd. Efallai ei fod yn ffortiwn ar y pryd ond roedd yn werth pob dimai. Diolch yn fawr iawn Foneddigion. Yr un amser y flwyddyn nesaf?

Roedd y cneifio eleni'n debyg i bob blwyddyn arall sef cyfuniad o losg haul, poen cefn, hwyliau drwg, iaith anwedus a dadrithiad llwyr gyda byw. Fel y gallwch dychmygu, pan gneifiwyd y ddafad olaf a'r cnu'n ddiogel dan do yn barod

i'w gasglu roedd bywyd yn bleser unwaith eto. Tuag wythnos yn ddiweddarach daeth glaw mawr i Garrog ac wrth imi fod wrthi'n sgubo'r dŵr o'r tŷ, heb imi wybod roedd un o ddraeniau'r buarth wedi blocio ac roedd y sied wllân yn bwl niofio dan do. Pan beidiodd y glaw ychydig a'r bygythiad i'r tŷ drosodd mi es i lawr y buarth a darganfod y difrod. Yn ffodus roedd hi'n dal i daranu a fy ymateb llai na rhesymol i i'r gwllân gwlyb yn cael ei foddi gan y twrw.

Cleddyf dau finiof bu'r haf eithafol o sych eleni. Daeth cynhaeaf da er yn wael ei gynnyrch gan ganiatáu imi orffen y defaid yn gynharach yn y flwyddyn yn weddol hawdd. Ond wrth i'r sychder gychwyn o ddifrif a Llan yn edrych fel Serengetti, roedd y diffyg glaw yn broblem fawr.

Oherwydd aildyfiant gwael ar ôl y cynhaeaf ychydig o bori glân oedd ar gael i'r wŷn pasgedig oedd wedi'u diddyfnu. O ganlyniad i hyn mae mwy o wyn ar ol ar y fferm eleni nac yn y blynyddoedd a fu. Wrth i'r dydd fyrhau a hithau'n oeri gall yr wyn hyn fod yn fwy anodd eu gorffen a bydd angen mwy o faeth na all y borfa yn unig ei gynnig, felly yn ol bob tebyg mi fydd y bil bwyd yn uwch nag arfer eleni.

Roedd angen gohirio'r cynlluniau i hau cae gyda rŵp eleni i besgi'r defaid am fod y sychder yn golygu bod y cnwd yn wael o ran sefydlu. Er bod sefydlu'r cnwd yn un ffactor wrth ohirio'r gwaith, y prif reswm oedd bod y cae yn galed a sych ninnau'n methu'n lan a chael yr aradr yn y pridd.

Roedd ffensio'n job arall a gafodd ei effeithio gan y tywydd sych. Treuliais wythnos ar ôy cynhaeaf yn ceisio gwneud darn, ond roedd y ddaear yn galed a sych ac angen ymdrech eithriadol i daro'r pyst i mewn. Roeddwn i bron yn teimlo rhyddhad pan dorrodd yr ordd a minnau'n gorfod cymryd seibiant.

Wrth wyllo rhagolygon y tywydd ddydd Sul roeddwn yn falch gweld fod wythnos wlyb yn cael ei haddo. Felly, gyda lwc, bydd y ddaear yn meddal a gallaf ffensio'n haws. Yn anffodus, unwaith bydd y glaw yn cychwyn y duedd ydy iddi beidio stopio felly gallaf ragweld bydd fy erthygl nesaf yn melltithio'r tywydd gwlyb.

Arddangosfa Gelf y Gymuned

Mae Carl a Lorraine, ein hartistiaid preswyl, yn dangos paentiadau o Garrog ar hyn o bryd mewn arddangosfa yn Y Capel Llangollen, ynghyd ag artistiaid eraill. Cofiwch eu cefnogi ac efallai gael eich temtio i brynu.

YSGOL CARROG

Dewiswyd aelodau Cyngor Ysgol Carrog i wneud cyflwyniad yng Nghynhadledd y Bobl Ifanc yn Nhŷ'r Oriol, Llanelwy. Rhoddodd yr aelodau wybodaeth i'r gynulleidfa o 150 am eu cyfarfodydd a'u penderfyniadau ynghyd a ffotograffau o'r digwyddiad a phrojectau cyngor yr ysgol.

Bu'r disgyblion yn cymryd rhan yn y Capel ac yn y Gwasanaethau Diolchgarwch. Canmolodd y cynulleidfaoedd hwy yn y ddau wasanaeth. Casglwyd £32 at Nyrsys Macmillan yng ngwasanaeth y Capel, gan godi cyfanswm o £132 at elusennau y tymor hwn.

Cynhaliwyd arddangosfa gelf ar y thema Awstralia yn y Neuadd. Roedd y gwaith a gafodd ei arddangos yn enillydd y gystadleuaeth Pafiliwn Llangollen. Derbyniodd 27 o blant fedalau a thystysgrifau oddi wrth y llyfrgellydd lleol am iddynt gymryd rhan yn rhaglen ddarllen yr haf.

Aeth y plant ifanc i gyfarfod a'r awdur Malachy Doyle yn Llyfrgell Corwen a mynychu Jambori yn Neuadd y Dref, Llangollen.

Y llun yn festri'r eglwys.

Roedd Mrs Valmai Webb wedi adnabod fy chwaer, Olwen. Williams oedd ei chyfenw. Enw fy mrawd oedd Trevor, a Betty oedd fy mam.

Ciper oedd Hugh (Hughie) ein tad. Fel y dywedodd Mrs Webb, yn Nhy Cynnes roeddwn yn byw. Mi fues i'n mynychu gwersi bale am gyfnod gyda'i merch Elspeth. Roeddwn yn arfer aros am i Mrs Webb fy nghodi wrth y stand lefrith gyferbyn â'r Efail.

Roedd fy nhaid Sam Williams yn byw yn Erw Dala. Ciper oedd yntau, a fy nhad hefyd. Roedd fy hen ewythr Llew (Llywelyn) yn byw yn Nhy Gwyn, gorsaf feistr oedd o ar un cyfnod, cyn imi ei adnabod. Roedd fy Hen Ewythr Tegid yn byw ar ben yr allt ar y briffordd. Un campus oedd o am hyfforddi cŵn.

Roedd gen i ewythrod eraill (roedd tua 12 o fechgyn ac un ferch yn y teulu, dw i'n meddwl) ond nhw oedd y rhai oedd yn byw'n lleol.

Bu farw gwraig Sam Williams (fy nain) yn ifanc, 32 mlwydd oed, o'r ddarfodedigaeth. Ar y pryd roeddwn nhw'n byw mewn bwthyn rhwng Carrog a Chorwen, i fyny'r bryn ar y ffordd gefn. Dw i'n methu cofio enw'r tŷ. Mae hanes fod Owain Glyndŵr wedi cuddio yno yn yr eiddew. Mae'n rhaid ei fod wedi cuddio mewn llawer iawn o eiddew.

Ailbriododd Sam a chael 'ail nythaid' o blant. Priododd Jean ei ferch â Glyn, Williams?? arall, neu efallai mai Roberts oedd o. Roedd y ddau'n rhedeg bar llefrith yng Nghorwen am nifer o flynyddoedd.

Pan fu farw'i fam, roedd Sam ei dad yn anabl oherwydd y Rhyfel Cyntaf ac roedd fy nhad, y plentyn hynaf, yn cofio gwarchod ei ddau frawd bychan a mynd â nhw i'r ysgol. Roedd yn gofalu bod eu pengliniau'n lan, o leiaf. Un diwrnod, aethant i'r ysgol drwy gerdded drwy'r nant, gan feddwl na fyddai neb yn gwybod nes iddyn nhw adael rhes o ol traed ar lawr yr ystafell ysgol- roedd eu hesgidiau'n llawn o ddŵr.

Trueni fod y genhedlaeth honno wedi marw i gyd, mi faswn wrth fy modd yn cael sgwrs am hen hanesion Carrog. Roedd fy nhad ac Ewythr Vaughan yn adroddwyr stori penig-amp, llawn hwyl. Un tro, rhoddodd Ewythr Vaughan regen yr yd ym mhiano'r ysgol. Sam oedd enw'r mab ieuengaf a fu farw'n 13 mis oed. Rydw i'n byw yn Perth Western Australia.

Talais ymweliad â Charrog ychydig o flynyddoedd yn ol gyda fy ngŵr a dau fachgen. Roeddynt wedi'u syfrdanu gan yr harddwch. A finnau hefyd. Roeddwn yn meddwl efallai fy mod wedi gorliwio'r harddwch yn fy absenoldeb, ond roedd bobman yn harddach na fy atgofion ohono hyd yn oed. Efallai mai ar y gwyliau hwn y cyfarfyddais â hen ffrind ysgol imi Elin Robson, Ty Canol.

Gwelais "Y Bont" ar y rhyngwrwyd ac rydw i'n edrych ymlaen at bob rhifyn. Daliwch ati gyda'r gwaith da!

Cofion. Di Jacoby

ER COF

Am Amanda Jane Williams a fu'n farw'n ddisymwth yn ei chartref, Carrog Isa, ar Hydref 15. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'w gwr Iwan a'i thri phlentyn Gruff, Jac a Lowri. Roedd Amanda yn ysgrifenyddes yn Ysgol Glyndyfrdwy. Bu'r angladd yng Nglyndyfrdwy ar ddydd Mercher 25 Hydref.